

DISGRIFIAD

Enw'r cais yma yw Bocs Sŵn Conwy. Mae Bocs Sŵn yn gynllun sydd wedi ennill ei blwy yn ardal Ynys Môn. Mae'r cynllun wedi cael ei ddatblygu gan Menter Iaith Môn. Mae'n cynnig sesiynau cymunedol ymhob rhan o Ynys Môn. Mae'r Rhwydwaith yn cynnig cyfleoedd i bobl ifanc ffurfio bandiau newydd a pherfformio mewn gigs. Mae aelodau'r Rhwydwaith yn gyfrifol am drefnu eu gigs eu hunain gyda chefnogaeth ein tiwtoriaid ac yn dysgu sgiliau newydd marchnata, hyrwyddo, sain a goleuo yn rhan o'r cynllun.

Ein bwriad yw adlewyrchu'r cynllun yma yn Sir Conwy. Byddwn yn defnyddio'r arbenigedd sydd wedi datblygu yn Ynys Môn i sefydlu patrwm tebyg yn Sir Conwy.

Mae'n amserol iawn gan fod Eisteddfod Genedlaethol yn dod i Conwy yn 2019. Hoffwn sefydlu'r cynllun fel fod modd i ddefnyddio'r ŵyl er i greu mwy o ddiddordeb mewn sefydlu bandiau er mwyn cystadlu ym Mrwydr y Bandiau sydd yn cael ei chynnal yn ystod y Prifwyl.

Ein bwriad yw defnyddio staff Boc Sŵn Ynys Môn i hyfforddi nifer o gerddorion lleol yn Sir Conwy ar sut i gynnal sesiynau Boc Sŵn. Unwaith fydd yr hyfforddiant wedi ei gwblhau bydd y cerddorion o Sir Conwy yn cychwyn y sesiynau efo golwg o greu 4 o fandiau newydd i gystadlu yn Brwydri y Bandiau Eisteddfod Genedlaethol 2019.

Ar yr un adeg hoffwn cydweithio yn agos efo Maes B, sef trefnwyr brwydr y Bandiau er mwyn i MlConwy gallu cynnal y pwyllgor lleol er mwyn iddynt parhau i gynnal cyngherddau cyson yn yr ardal. Rhywbeth sydd wedi gwano yn yr ardal yn ddiweddar.

Trwy neud hyn ein gobaith yw fydd y cyngherddau cyson yn creu digon o ddiddordeb a chyfleoedd i grwpiau newydd cael chware ac datblygu.

Byddwn hefyd yn anelu i gael plant iau i gystadlu ym Mrwydr y Bandiau Eisteddfod yr Urdd.

Ein bwriad yw parhau efo Bocs Sŵn ar ôl yr Eisteddfod fydd yn cyflogi staff BocSw'n yn llawrydd. Byddwn yn edrych ar godi tal ar sesiynau er mwyn neud yn gynllun hir dymor.

Hoffwn weld cerddorion newydd sydd yn dod i ni dryw'r cynllun yn cymhwysodd dros amser i hefyd gallu mentora o fewn y cynllun.

Bydd hefyd yn gynllun mewn partneriaeth efo Ysgol Dyffryn Conwy ac Ysgol y Creuddyn a'r Urdd. Byddwn hefyd yn cynnig y gwasanaeth i disgyblion uwchradd ail-iaith. Rydym wedi cael addewid o offer stiwdio ganddynt felly bydd rhan fwyaf y cais yma yn canolbwyntio ar gostau refeniw i gyflogi staff a'i hyfforddi.

Byddwn yn defnyddio stwythyr Bocsw'n Ynys Mon sef;

Gweithdai Creu Cerddoriaeth Strwythuredig dros gyfnod o 8 wythnos (3 mewn blwyddyn) . Yn y

gweithdai hyn, fe fydd y plant a'r bobl ifanc yn gweithio mewn grwpiau o 6-8, ac o dan arweiniad 2 diwtor proffesiynol.

Cynhelir 4 sesiwn creu cerddoriaeth (2 sesiwn 2 noson yr wythnos) ar ôl ysgol o 4.30-6pm ar gyfer plant rhwng 6-11oed, ac yna 6.30-8.00pm ar gyfer pobl ifanc 11-18oed (uwchradd). Byddan nhw yn cael cyfleoedd i;

- dysgu chwarae offerynnau cerdd (gitâr; drymiau; allweddellau) a/neu ddefnyddio peiriannau iMAC i greu cerddoriaeth ddigidol.
- Cyfansoddi geiriau cân newydd
- Cyfansoddi melodïau
- Perfformio a recordio'r gân ar MP3 a'i uwchlwytho i wefan
- Defnyddio Stiwdio Ysgol Dyffryn Conwy i recordio, cymysgu a chreu eu gwaith eu hunain.
- Dylunio a chreu graffeg ar gyfer eu gwaith

Byddwn ni hefyd am i'r arian hwn gyfrannu at ddatblygiad Rhwydwaith Perfformwyr Ifanc. Dyma gyfle i bobl ifanc (hyd at 12-15 mewn nifer) greu cyfleoedd cymdeithasol newydd gan ddarparu cyfleoedd i fandïau ifanc newydd (a rhai sydd yn bodoli yn barod) berfformio yn lleol.

Drwy'r rhwydwaith, y bobl ifanc sy'n gyfrifol am drefnu, marchnata a chynnal y nosweithiau gyda chefnogaeth cydlynedd ac arbenigwyr a wahoddir i mewn. Mae'r rhwydwaith ar agor i bawb-nid rhai sy'n ymddiddori mewn cerddoriaeth yn unig. Mae cyfle i ddatblygu sgiliau marchnata, sain/goleuo, cynnal a threfnu digwyddiadau, ffotograffi/ffilm, iechyd/diogelwch, ac fe gynhigir achrediadau OCN Trefnu Digwyddiadau i'r buddiolwyr.

Drwy ddarparu cyfleoedd creu cerddoriaeth, fe fyddwn ni'n cefnogi datblygiad sgiliau ymenyddol amrywiol. Ar lefel bersonol a chymdeithasol mae buddiannau hefyd- maen nhw'n cael modd o fynegi eu hunain, annog creadigrwydd, a gwella eu hunan hyder a hunan barch. Yn ôl tystiolaeth Youth Music, mae gwell cyfleoedd creu cerddoriaeth yn gwella cyfleoedd diwylliannol a chymdeithasol pobl ifanc, gan eu bod nhw â gwell gwybodaeth a gwell mynediad at amrywiol ffurfiau celfyddydol. Mae gwell cyfleoedd cymdeithasol ar gyfer plant a phobl ifanc yn gwella iechyd meddwl, deilliannau ymddygiadol a chynhwysiant cymunedol.

NOD

Nod cychwynnol y cynllun yma fydd hyfforddi criw lleol i fedri cynnal y sesiynau fel sydd wedi bod yn digwydd a'r Ynys Môn. I neud hyn fyddwn yn cyflogi mentoriaid Bocs sŵn Ynys Môn i weithio efo criw o cerddorion ac artistiaid lleol efo'r nod o'u cymhwyso i rhedeg sesiynau Bocs Sŵn Conwy. Fydd hyn yn cynnwys hyfforddiant o dechnegau sydd wedi cael ei ddatblygu dros y blynyddoedd yn Ynys Môn er mwyn sicrhau ansawdd artistig. Y 2 diwtor byddwn yn defnyddio yw Huw Owen a Richard, sef staff Bocs Sŵn Ynys Môn. Mae ganddynt profiad helaeth o weithio o fewn y cynllun ac nifer o gynlluniau cerddorol eu hunan hefyd.

Rydym yn anelu i weithio efo cerddorion profiadol sydd yn byw yn Sir Conwy.

Mi fydd hyn yn cynnwys George Amor, Llyr Pari ac Alun Tan Lan. Eto mae'r cerddorion yma i gyd yn brofiadol iawn ac efo profiad o feithrin grwpiau a cynnal gweithdai eisoes.

Ein bwriad yw rhoi cyfle i'r cerddorion yma cael mynychu sesiynau Bacswn yn Ynys Môn iddynt cael dod yn gyfarwydd efo sut mae'r cynllun yn gweithio.

O dan y cynllun presennol mae'r tiwtoriaid yn cyflwyno strwythurau caneuon, sut mae cordiau ac alawon yn gweithio efo'i gilydd. Mae Bocs Sŵn wedi datblygu templed cyfansoddi a chware bydd modd cael ei ddefnyddio efo'r cynllun yma.

Fel sydd yn digwydd efo'r cynllun presennol byddwn yn mesur cynydd yn gallu a hyder y plant trwy holiaduron, cynnyrch y cynllun (bydd ar gael ar y we).

Yn wahanol i sesiynau presennol Bocs Sŵn byddwn yn codi arian am y sesiynau er mwyn sicrhau gwell ymrwymiad i'r cynllun fydd yn creu gwell cynnyrch.

Nod hir dymor y cynllun fydd i alluogi bandiau i sefyll ar traed ei hunan drwy hwyluso sesiynau ymarfer a cyfleon i chware ac elfennau o sut i hyrwyddo ei hunan, creu poster a chodi ymwybyddiaeth o gerddoriaeth Cymraeg.

Byddwn yn defnyddio profiad Bocs Sŵn Môn i ddatblygu'r prosiect hwn, ynghyd â thrafod gyda grwpiau, ysgolion a mudiadau cefnogi pobl ifanc yn lleol. Budd adborth ein buddiolwyr yn llywio'r ddarpariaeth gan sicrhau ein bod yn cwrdd â disgwyliadau defnyddwyr y gwasanaeth. Defnyddir holiaduron, sgysiau â thiwtoriaid fapio ac adnabod cyfleoedd newydd. Ymhellach, bydd adborth cyn-ddefnyddwyr, rhieni, gofawyr ac arweinyddion sesiynau yn cyfrannu at ein dulliau o sicrhau ansawdd.

Bydd y prosiect hwn yn parhau i adeiladu ar bartneriaethau creadigol sy'n bodoli ynghyd â chreu rhai newydd. Mae gennym ni bartneriaeth gadarnhaol ag Urdd Gobaith Cymru ,wrth ddatblygu'r Rhwydwaith Perfformwyr Ifanc bydd hyrwyddo cerddoriaeth Gymraeg yn rhan annatod o'r cynllun hwn. Drwy ein cysylltiadau â Grŵp Llandrillo Menai bydd y prosiect yn rhoi mewnelediad i bobl ifanc sydd â'u bryd ar ddilyn gyrfa mewn maes celfyddydol drwy gynnig cyfleoedd cysgodi tiwtoriaid, cyfleoedd i ddefnyddio'r ddesg recordio a phrofiad stiwdio broffesiynol.

BUDD I'R CYHOEDD

Credwn fydd modd i ni ddod a budd i gyhoedd yng Nghonwy trwy addasu cynllun llwyddiannus sydd efo enw da.

Fe fydd y prosiect yn helpu gwella cymhelliant pobl ifanc i gymryd rhan a chyflawni mewn addysg a hyfforddiant. Yn aml gwelir gwell cyflawniad academaidd gan y rhai sy'n dysgu chwarae offeryn cerdd (Youth Music). Mae cysylltiad rhwng yr hyn sy'n ein hysgogi, ein gallu a'n hunan effeithlonrwydd.

Drwy fod yn rhan o grŵp, bydd ymrwymiad, parch, cyfrifoldeb ac ymddiriedaeth yn ffactorau allweddol gaiff eu datblygu. Byddwn ni'n rhoi pwyslais ar yr agweddau hyn fel sgiliau hanfodol gaiff eu datblygu drwy'r gweithdai creu cerddoriaeth strwythuredig a chyfrifoldebau yn y rhwydwaith. Bydd y prosiect hwn hefyd yn helpu pobl ifanc i ddatblygu sgiliau creadigol fydd yn eu paratoi a'u helpu ar gyfer swyddi yn y dyfodol.

Wrth gymryd rhan yn y prosiect hwn hefyd byddan nhw yn ymddwyn yn aeddfed, ac yn medru ymateb i sefyllfaoedd yn gadarnhaol. Fe fyddan nhw yn medru gwneud newidiadau i'w bywydau

wrth i hyder a hunan barch gael ei ddatblygu drwy wahanol gyfrifoldebau a phrofiadau mae'r prosiect yn ei gynnig.

O rhan y plant, bydd y sesiynau ar agor i plant o 5 mlwydd oed i 18. Byddwn yn anelu i weithio efo 50 i 100 y flwyddyn. Bydd y grwpiau yn cynnwys dim mwy na 8 aelod.

O rhan y sin cerddorol Cymraeg gobeithiwn fydd yn creu gymorth i ymestyn ei gynulleidfa drwy rhoi blas ohono ar ei ora yn ystod yr Eisteddfod ond drwy codi ymwybyddiaeth o gerddoriaeth Cymraeg yn ystod y cynllun hefyd.

Bydd y grwpiau mwyaf datblygedig yn mynd ati i parhau i chware o fewn y sin Gymraeg. Bydd moddi Menter Iaith Conwy ei cynorthwyo trwy pasio ei manylion ymlaen i rhwydwaith y mentrau iaith sydd yn trefnu digwyddiadau cerddoriaeth a gwyliau Cymraeg ar draws y wlad.

Byddwn hefyd yn annog aelodau o grwpiau mewn amser i hyfforddi fel tiwtoriaid Bocs Sŵn fel fod modd iddynt cyfrannu ei profiadau a sgiliau yn ôl i mewn i'r cynllun. Byddwn yn gweithio hyrwyddo cyrsiau technoleg sain Coleg Llandrillo i rhai sydd efo diddordeb mewn neud gyfra yn y maes.

Tystiolaeth o angen

Dyfodiad yr Eisteddfod

Credwn fod angen i blant lleol manteisio ar y ffaith fod un o wyliau celfyddydol mwyaf Ewrop yn mynd i fod ar ei steipan drws. Bydd y cynllun yma yn ei denu i'r Eisteddfod ac yn ei cyflwyno i gerddoriaeth Cymraeg ac nifer o ddigwyddiadau celfyddydol a diwylliannol eraill.

Tystiolaeth o Ynys Môn

Oherwydd fod y cynllun wedi bod mor llwyddiannus yn Ynys Môn ein bod am ei ail-greu yma. Rhan o gwaith y Mentrau Iaith yw mynd ac esiamplau o ymarfer da o un rhan o Gymru i'r llall.

Tystiolaeth Lleol

Gwelwn o rhedeg man gynllunia tebyg yn y gorffennol wedi gynorthwyo unigolion i ffurfio bandiau sydd erbyn rŵan yn penawdu yn gyson yn y Sin Roc Gymraeg. Mae gennym tystiolaeth fidio o aelodau o Serol Serol yn cymryd rhan mewn gweithdy yn Ysbyty Ifan 6 mlynedd yn ôl. Rydym hefyd wedi cynnwys ei barn ar yr angen am y cynllun. Gwaith Mapio rhwng Partneriaid

Rydym trwy ein Fforwm Sirol (Fforwm o'n partneriaid sydd yn cwrdd pob chwarter) wedi mesur gweithgareddau sydd ar gael yn y Gymraeg i Plant a Phobl Ifanc. Nid oedd y fath o darpariaeth yr ydym am gynnig trwy Bocs Sŵn yn bodoli. Er hyn mae yna adnoddau yn lleol i'w cynnig mewn 2 ysgol ac gan yr Urdd ond ddim staff arbenigol i'w rhedeg. Rydym wedi atodi copi o'r ddogfen Mapio. Credwn fod y diffyg darpariaeth trwy'r Gymraeg yn rhwystr sylweddol yn erbyn cydraddoldeb ac mynediad at weithgarwch.

Siarter Iaith

Credwn hefyd rŵan fod ysgolion Sir Conwy wedi ymrwymo i'r Siarter Iaith, sef cynllun i gynyddu defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg bydd gan ysgolion diddordeb mewn hyrwyddo'r cynllun. Mae'r prosiect hwn yn cefnogi amcanion Maes Strategol 2 oddi mewn i strategaeth a chynllun gwaith y Fenter Iaith, gyda'r nod o annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol a diwylliannol ehangach drwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd yn cynnig gweithgaredd mewn ardal wledig Cymraeg ei hiaith lle does ddim unrhyw cynllun tebyg tra fydd yn cynnig gweithgaredd penodol yn Gymraeg yn ardal y Glannau lle mae yna brinder o weithgarwch cyfrwng Cymraeg ar ôl ysgol.

Rydym wedi atodi arolwg Survey monkey a cyfweiliadau sydd yn cryfhau y tystiolaeth o angen. E.e. Roedd 42.28% (24 unigolyn oed ysgol) o'r rhai a holwyd sef 53 efo diddordeb bod mewn band (q4).

Tystiolaeth Fideo: <https://drive.google.com/file/d/1GYDbPR5W7p8NNz8eqEjM24omEB4V-YfI/view?usp=sharing>

CYNLLUNIO

Mae gennym ni berthynas weithio agos â'n prif bartneriaid sef; -

Partneriaid

Mae'r Urdd, Ysgol y Creuddyn ac Ysgol Dyffryn Conwy ac yr Eisteddfod Genedlaethol (Maes B) yn bartneriaid yn y cynllun yma. Maent i gyd am gyfrannu adnoddau tu ag ato.

Yr Urdd – Defnydd o offer recordio symudol, cyfle i blant iau cystadlu yn Brwydr y Bandiau Eisteddfod yr Urdd.

Ysgol Dyffryn Conwy – defnydd o'i stiwdio recordio sain

Ysgol y Creuddyn – defnydd o ofod yn yr ysgol offerynnau

Eisteddfod Genedlaethol ac Maes B – Cyfle i bandiau chware ar y maes a chystadlu yn Brwydr y Bandiau yn Maes B

Byddwn yn cydweithwng i gyfoethogi ein darpariaethau a chau bylchau'n lleol. Rydym yn cwrdd yn chwarterol er mwyn mapio gwaith, rhannu gwybodaeth, ac adnabod cyfleoedd cydweithio. Bydd y partneriaid yn darparu cymorth ymarferol i'r prosiect hwn wrth gyfeirio buddiolwyr at y prosiect, hyrwyddo a marchnata, a darparu gwirfoddolwyr.

Wrth gynllunio ein prosiect rydym wedi defnyddio adnoddau gwybodaeth swyddogol sydd ar gael gan Cyngor Celf Cymru, Cerdd Cymunedol, Llywodraeth Cymru ac yn ehangach, Youth Music. Rydym ni wedi ymchwilio i ystadegau drwy gyrff sy'n gweithio i drechi tlodi ac amddiffyn plant.

Ymgynghorwyd â phartneriaid a darparwyr eraill i adnabod bylchau a blaenoriaethau.

Trafodwn yn barhaus gyda buddiolwyr ein gwasanaethau er mwyn deall yn union eu anghenion nhw. Rydym am ddatblygu ymhellach y prosiectau yn seiliedig ar eu hadborth, a gwneir y gwaith hwn gyda grwpiau, holiaduron mewn gweithgareddau ac ymweliadau. Cymerwyd sampl o ymatebion o ddigwyddiadau blaenorol ac wedi cofnodi ymatebion llafar yn ystod prosiectau cyfredol.

Bydd y targedau yn cael eu gosod mewn i raglen waith y Fenter. Bydd y staff caiff eu penodi i weithredu'r cynllun yn cael rhan yn gosod y targedau. Byddwn hefyd yn gweithio efo Mentoriaid Bocs Sŵn Ynys Môn i neud yn siŵr fod y targedau yma yn rhai cyraeddadwy.

Bydd y staff wedyn yn mynd ati i drefnu rhaglen flwyddyn fydd a'r nod o gyflawni'r targedau.

Bydd y prif swyddog yn cynnal cyfarfod efo swyddogion penodol er mwyn gosod eu rhaglen waith am y flwyddyn.

Bydd cyfarfodydd staff cyson yn cael eu cynnal (pob pythefnos) lle bydd swyddogion yn adrodd ar ei gwaith.

Bydd cyfarfodydd targedau penodol (pob 2 fis) yn cael eu cynnal i sicrhau fod y targedau yn cael ei gyflawni.

Bydd adroddiadau chwarterol sydd yn cael eu cyflwyno i'r rheolwr Grant yn Cyngor y Celfyddydau pob chwarter i ddatgan lle fyddwn o ran cyrraedd y targedau ac yn ein galluogi i addasu'r rhaglen waith fel sydd rhaid.

Os fydd targedau angen eu haddasu bydd y Cyfarwyddwr Datblygu yn cysylltu efo'r rheolwr grant i drafod y mater.

Bydd yr adroddiadau yn cael ei cyflwyno i Bwrdd Cyfarwyddwyr Menter Iaith Conwy pob chwarter. O fan hyn bydd modd iddynt codi unrhyw cwestiynau bydd wedyn yn cael ei fwydo nol trwy y Cyfarwyddwr Datblygu i staff y cynllun.

ARIANNU

Ein bwriad yw neud y cynllun yn hunangynhaliol yn yr hir dymor, i neud hyn rydym wedi dewis rhannu'r cyllid dros 3 mlynedd, efo rhan helaeth yr arian yn cael ei wario yn y ddwy flynedd gyntaf, erbyn y trydydd flwyddyn fydd rhan fwyaf yr arian yn dod o ffynonellau eraill ac arian wrth cefn o'r ddwy flynedd gyntaf.

Rydym wedi llwyddo cefnogaeth mewn adnoddau ar gyfer y cynllun;

- Lleoliad ac Offer Recordio Ysgol Dyffryn Conwy ac offerynnau.
- Offerynnau gan yr Urdd
- Lleoliad yn Ysgol Dyffryn Conwy
- Amser Swyddogion Maes MIConwy i drefnu sesiynau
- Amser Cyfarwyddwr MIConwy i rheoli'r cynllun.

Oherwydd hyn bydd rhan helaeth o'r cyllid yr ydym yn gofyn am yn arian refeniw. Byddem yn cael ei ddefnyddio i gyflogi tiwtoriaid i hyfforddi tiwtoriaid newydd ac i rhain wedyn gynnal sesiynau yn y 2 leoliad rheolaidd ac nifer o leoliadau i fynd a'r gwaith allan i'r Cymuned.

Byddwn yn cadw ambell i bennawd i brynu offer newydd ac llogi gofod cymunedol pam mae angen. Gan ein bwriad yw defnyddio gweithwyr llawrydd bydd Menter Iaith Conwy yn cynorthwyo i trefnu ac hyrwyddo'r cynllun ac yn tynnu adnoddau ei phartneriaid i mewn i neud hyn hefyd. O bosib bydd angen neilltuo ychydig o arian i addasu defnydd cyhoeddusrwydd Bocs sŵn Ynys Môn. Bydd hyn yn caniatáu y tiwtoriaid i dreulio mwy o amser yn mentora a chynnig mwy o werth am arian i'r cynllun.

Rydym hefyd wedi selio ein costau cyflogi cynllun Bocs sŵn Ynys Môn. Byddwn yn codi ychydig ar

buddiolwyr efo'r golwg ar neud y cynllun yn hunan gynhalio yn y hir dymor. Ein bwriad i'w defnyddio yr arian yma fel arian cyfatebol yn y flwyddyn gyntaf ac ail flwyddyn. Ein bwriad yw gallu cynyddu y niferoedd yr y trydydd flwyddyn er mwyn cynnal rhwydwaith o weithwyr llawrydd. Menter Iaith Conwy fydd wedyn yn trefnu'r sesiynau yma. Mi caiff hyn i weld fel cyfraniad mewn da gan Menter Iaith Conwy.

Rydym wedi cynnwys daflen o'n costau arfaethedig mewn dogfen Excel sydd yn edrych ar rhediad y rhaglen dros 3 mlynedd.